**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned nos Lun Rhagfyr 9fed 2013 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Gwydion Jones, Emlyn Williams, Ann Vaughan

Presennol: Gwyn Williams (Cadeirydd), Diane Roberts, Tecwyn Evans, Ifor Edwards, Elen Edwards, Cyngh Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

Roedd 3 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

19.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

19.2 CYHOEDD – rhoddwyd cyfle i aelodau'r cyhoedd roi sylwadau a mynegwyd bod cais cynllunio tebyg i'r un dan sylw yn y cyfarfod wedi ei drafod gan Gyngor Cymuned Eglwysbach a bod y cyngor hwnnw wedi ei wrthwynebu.

19.3 CEISIADAU CYNLLUNIO
19.3.1 Cais Rhif 0/38695 Codi 10 Tyrbin Gwynt yn Llys Dymper, Gwytherin gan Wind Power Wales Group plc – derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ar y datblygiad. PENDERFYNWYD i nodi nad oedd gennym sylwadau pellach a bod ein sylwadau blaenorol yn gwrthwynebu'r cais yn dal i sefyll yn bendant. Deellir bod y cais cynllunio yn cael ei drafod ym Mhwyllgor Cynllunio Conwy ym mis Chwefror.

19.3.2 Cais Rhif 0/40329 Codi tyrbin sengl (gyda gallu cynhyrchu hyd at 500kw ac uchder blaen uchafswm o 67m) ynghyd a datblygiad ategol sy'n cynnwys offer switsio trydan cysylltiedig a chiosg newidydd, ceblau o dan y ddaear, trac mynediad ar y safle, mynediad i'r briffordd gyhoeddus a chraen ar arwyneb caled yn Cefn Groes Bach, Llansannan gan Mr Gwilym Parry. PENDERFYNWYD i wrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol:

1. Mae'r tyrbin yn rhy fawr i'r ardal a bydd i'w weld o amryw o lefydd - yn amharu'r amgylchedd.

2. Yn ol y dogfennau bydd effaith 'fflicer' yn amlwg iawn.

3. Bydd sŵn o'r tyrbin yn effeithio ar dai cyfagos h.y. Cefn Groes Fawr, The Mount a'r clwstwr tai cyfagos.

4. Nid yw'r datblygiad yn cefnogi busnes bach lleol yn yr ardal - fel y tyrbinau llai a wnaethom fel Cyngor gefnogi yn y gymuned hon yn y blynyddoedd diwethaf.

5. Rhoddwyd caniatad gan Sir Conwy i osod Mast anemometer 15m o uchder ar y safle ar 6/9/13 rhif cyf. 0/40016 i fod i fyny am 12 mis. Onid yw'r mast i fod yn ei le am flwyddyn cyn gwneud cais cynllunio am dyrbin gwynt?

19.4  Adolygu Ffiniau Cynghorau Cymuned a Threfniadau Etholiadol – PENDERFYNWYD anfon linc i bob aelod ar e-bost.  Bydd angen sylwadau terfynol erbyn diwedd Mis Ionawr.

19.5  Cofebion Rhyfel – cafwyd cais i roi gwybod am bob cofeb er mwyn eu hadnewyddu ar gyfer canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.  Cyfeiriodd Cyng Dilwyn Roberts at berson yn y Sir sydd yn wybyddus iawn a phob cofeb a PHENDERFYNWYD i'r Clerc gysylltu.

19.6  Cynrychiolydd Un Llais ar Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – PENDERFYNWYD i bleidleisio dros Mr John Maclennan.

19.7  MATERION LLEOL
19.7.1  Draen wedi blocio ger Nant Mawr.
19.7.2  Gwaith angen ei wneud yn Petryal eto.
19.7.3  Biniau ailgylchu yn malu yn y gwynt a hefyd yr amseru braidd yn ddrwg yn Llangernyw ar fore Mawrth ac Iau – amser cludo plant  i'r  ysgol.
19.7.4  Derbyniwyd llythyr gan Antoinette Sandbach yn holi am sefyllfa toiledau yn yr ardal.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion*  *Arwyddwyd .E H Edwards..................... Dyddiad...15/1/14...*

Community Council Meeting was held on Monday evening December 9th 2013 at 7.30 pm at the Canolfan Bro Cernyw

Apologies : Gwydion Jones , Emlyn Williams , Ann Vaughan

Present : Gwyn Williams (Chair ) , Diane Roberts , Tecwyn Evans , Ifor Edwards , Elen Edwards , Cllr Dilwyn Roberts & Clerk .

There were 3 members of the public present.

19.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the Agenda .

19.2 PUBLIC - Members of the public were given the opportunity to comment and stated that an application similar to the one in question had been discussed at the meeting of Eglwysbach Community Council and that the council had opposed it .

19.3 PLANNING APPLICATIONS
19.3.1 Application No. 0 / 38695 Erection of 10 Wind Turbines in Llys Dymper, Gwytherin by Wind Power Wales Group plc - received additional information on the development. RESOLVED to note that we had no further comment and that our previous comments objecting to the application still stands firmly . It is understood that the planning application will be discussed at Conwy Planning Committee in February.

19.3.2 Application No. 0 / 40329 Erection of single turbine ( with production capacity up to 500kW and a maximum tip height of 67m ) together with ancillary development which includes associated electrical switchgear and transformer kiosk , underground cabling , access track site , access to the public highway and a crane on a hard surface in Cefn Groes Bach , Llansannan by Mr Gwilym Parry .
RESOLVED to object for the following reasons :

1 . The turbine is too big for the area and will be visible from many places - a detrimental impact on the environment .

2 . According to the documents the impact of flicker is very evident .

3 . The noise from the turbine will effect neighboring properties ie Cefn Groes Fawr, The Mount and the cluster of nearby houses .

4 . The development will not support small local business in the area - as the smaller turbines the Council has supported in this community in recent years .

5 . Conwy County granted permission to install a 15m high anemometer mast on the site on 06/09/13 ref. 0 / 40016 to be up for 12 months . Does the mast not need to be in place for a year before making a planning application for a wind turbine ?

19.4 Review of Community Council Boundaries and Electoral Arrangements - RESOLVED to send a link to all members via e - mail . Final comments needed by the end of January.

19.5 War Memorials - it was requested to report all memorials to be renovated for the centenary of the First World War . Cllr Dilwyn Roberts referred to a person in Conwy who is familiar with every monument and RESOLVED that the Clerk contact him.

19.6 Representative One Voice Wales on Stakeholder Reference Group Betsi Cadwaladr University Health Board - RESOLVED to vote for Mr John Maclennan .

19.7 LOCAL ISSUES
19.7.1 Drain blocked near Nant Mawr .
19.7.2 Work needs to be done in Petryal again .
19.7.3 Recycling bins are being damaged by the wind and also the Recycling lorry timing is rather bad in Llangernyw on Tuesday mornings and Thursday – the time children are arriving at the school .
19.7.4 A letter from Antoinette Sandbach asking about the situation of the toilets in the area .

The meeting ended at 8.45 pm.

Minutes were approved Signed ...*E H Edwards*.............................. Date ..15/1/14…